**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2019 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL
Richard Fairhead, Cymdeithas Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r Gweithwyr (Cadeirydd)
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Ken Finch, Trysorydd, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng. Bryan Apsley, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Gareth Owens, Dirprwy Glerc Monitro, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Helen MacArthur, PSC, yn Cynghori
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau, yn Cynghori

YMDDIHEURIADAU
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, yn Cofnodi
Blythe Roberts, Undeb yr FBU, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Ruth Simmons, PSTC, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng. J Rodney Skelland, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng. John Brynmor Hughes, yn cynrychioli'r Gweithwyr

SYLWEDYDD
Matthew Georgiou, Uwch Gyfreithiwr Sir y Fflint

NEWIDIADAU I AELODAETH
Mae Geraint Hughes wedi ymddeol o'r gwasanaeth; Felly, bydd y PSC MacArthur yn chwilio am gynrychiolaeth newydd o Gymdeithas y Swyddogion Tân.

1 ETHOL CADEIRYDD

1.1 Bob dwy flynedd, mae swydd y Cadeirydd yn cael ei chylchdroi rhwng cynrychiolwyr y cyflogwr a'r gweithwyr. Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, R Fairhead, wedi cwblhau ei dymor; cynrychiolydd y gweithwyr a enwebwyd oedd y Cynghorydd Apsley, a dderbyniodd y swydd.

2. DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2019 eu cymeradwyo'n gofnod cywir. O'r pwyntiau gweithredu:

- Cymeradwywyd Cylch Gorchwyl 2019/20; ers hynny, maen nhw wedi cael eu cyflwyno i'r ATA, ac maen nhw ar gael ar wefan yr ATA;
- Derbyniodd y Bwrdd gadarnhad ar lafar gan y Rheolwr Pensiynau bod ffurflenni optio allan yn cael eu cadw ar gyfer staff amser llawn sydd wedi dewis peidio ymuno â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân;
- Ailadroddwyd y penderfyniad ynghylch rheol B5c i Aelodau'r Bwrdd;
- Mae eitemau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd i ffurfio rhan o gyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd wedi cael eu cynnwys yn agenda bresennol y cyfarfod;
- Er mwyn gwella trefniadau llywodraethu, mae Cronfa Bensiwn Dyfed bellach yn cynnwys adran yn eu hadroddiad diweddaru sy'n cadarnhau y caiff y bwletin a'r hysbysiadau sy'n cael eu cylchredeg eu gweithredu.

4 ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

4.1 Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar y canlynol:

- Grŵp Pensiynau Ymladdwyr Tân Cymru Gyfan
- Her Gyfreithiol Diogelwch Trosiannol Pensiynau
- Dyfarniad yr Uchel Lys ar Dâl Pensiynadwy Diffoddwyr Tân
- Gorchymyn Diwygio 2019 - Barn Walker
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am fwletinau a chylchlythyrau FFPS.

4.2 Ar hyn o bryd, nid yw fformat yr adroddiad gweithgareddau wedi'i ddiwygio, gan y byddai cael y data mewn fformat cysoni yn gosod baich ar y gweinyddwyr; fodd bynnag, yn y fformat presennol, nodwyd ei bod yn anodd i aelodau ddeall newidiadau yn ystod pob cyfnod adrodd. Bydd PSC MacArthur yn trafod y mater hwn gyda'r gweinyddwyr cyn iddynt fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Hydref 2019.

4.3 Trafodwyd lefel uchel yr achosion optio allan, a rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod yr ymarfer ailgofrestru statudol i fod i ddechrau ym mis Awst 2019, pan fydd yr holl weithwyr cymwys nad ydynt yn rhan o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân ar hyn o bryd yn cael eu cofrestru yng Nghynllun 2015.

4.4 Trafodwyd dyfarniad Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, Gweinidogion Cymru ac eraill, ac R Sargeant ac eraill.

Dyfarnodd y Llys Apêl fod y diogelwch trosiannol a gynigiwyd i rai aelodau fel rhan o weithredu cynlluniau cyfartaledd gyrfa yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Ar 27 Mehefin 2019, gwrthododd yr Uchel Lys ganiatâd i'r Llywodraeth apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Bydd gwaith adfer yn digwydd yn awr drwy Dribiwnlys Cyflogaeth. Does dim angen gweithredu'n lleol nes bod diwygiadau i'r Gorchmynion Pensiwn yn cael eu cynhyrchu. Yn y cyfamser, gofynnodd PSTC Fairhead os gallai cynrychiolydd Undeb yr FBU a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ddiweddaru aelodau am y goblygiadau posibl, ac atgoffa'r aelodau yn benodol, bod y cynlluniau FPS1992 a 2007 bellach wedi'u cau ac felly, bod canlyniad y penderfyniad yn debygol o gynnwys camau gwella.

4.5 Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol wedi'i chofnodi yng nghyfrifon 2018/19 yr ATA; mae'r asesiad actiwaraidd cychwynnol wedi cynyddu'r rhwymedigaethau pensiwn 5%.

4.6 Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) wedi darparu canllawiau i ATAau mewn perthynas â chydrannau cyflog pensiynadwy. Cytunodd y Bwrdd y dylid cael cyngor pellach gan gyfreithwyr yr ATAau i ystyried ffeithiau'r achosion llys diweddar yn unol â threfniadau cytundebol sydd ar waith i ystyried addasiad hanesyddol cydrannau cyflog.

4.7 Mae'r ATA wedi rhoi gwybod am newidiadau rheoleiddiol Walker i aelodau FPS 1992.

4.8 **PENDERFYNWYD:**

- **(i) nodi'r wybodaeth;**
- **(ii) PSC MacArthur i gysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed ynghylch gwelliannau i'r data gweithgareddau;**
- **(iii) cynrychiolydd undeb yr FBU i sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o oblygiadau'r achos Sargeant;**
- **(iv) cyfeirio at gyfreithwyr i adolygu contractau gweithwyr yn erbyn y gyfraith achosion bresennol, ac i roi cyngor ar gamau cywiro.**

5 DATGANIADAU BUDDIANNAU BLYNYDDOL (DBBau)

5.1 Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau y papur a oedd yn canolbwyntio ar ddiben a phwysigrwydd y DBB. Cymeradwywyd cynnwys y ddogfen cwestiynau cyffredin, a chanolbwyntiodd y Bwrdd eu trafodaeth ar gyfathrebu. Cytunwyd y byddai'r ddogfen cwestiynau cyffredin yn cael ei hatodi o fewn y cyfleuster ' Fy Mhensiynau Ar-lein', a chytunwyd bod dolenni'n cael eu darparu mewn diweddariadau Cryno Wythnosol. Ystyriwyd cynnwys y ddogfen gyda slipiau cyflog yn cael eu cyhoeddi ym mis Awst; fodd bynnag, gwrthodwyd y cynnig

oherwydd y baich gweinyddol dan sylw e.e. sicrhau bod y ddogfen gywir yn cael ei dosbarthu yn unol ag aelodaeth o gynllun penodol.

5.2 **PENDERFYNWYD:**

**(v) cynnwys y ddogfen Cwestiynau Cyffredin;**

**(vi) sicrhau bod y ddogfen yn cael ei chyfleu'n ddigonol i aelodau perthnasol.**

6 CRONFA BENSIWN DYFED (CBD) – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

6.1 Cyflwynodd PSC MacArthur yr adroddiad, a ddarparwyd gan CBD, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gweinyddu'r cynlluniau. Darparwyd yr adroddiad sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol.

- Diweddariad Rheoleiddio
- E-gyfathrebu
- Data Diwedd Blwyddyn
- Cysoni GMP
- Adroddiadau Ansawdd Data
- Fy Mhensiwn Ar-lein
- Llif gwaith

6.2 Trafodwyd y mater yn ymwneud â chofrestru a chael mynediad at y cyfleuster ' Fy Mhensiynau Ar-lein '. Cytunwyd bod yn rhaid cymryd camau i wella nifer yr aelodau sy'n talu pensiwn drwy ddefnyddio'r cyfleuster pensiwn. Cytunwyd ar y dulliau canlynol gan y Bwrdd:

- Bydd cyfathrebu yn y Cylchlythyr Wythnosol yn cael ei anfon allan ym mis Gorffennaf a mis Awst;
- Byddai pob corff cynrychioliadol o fewn y Bwrdd yn hysbysu'r staff o'r pwysigrwydd o ddefnyddio'r cyfleuster;
- Cynrychiolydd Undeb yr FBU i fwrw ymlaen â'r mater yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Brigâd;
- Bydd y Rheolwr Pensiynau yn cysylltu â'r adran Hyfforddi i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf o fewn y cyfleuster pro PDR

6.3 Bydd Ansawdd Data yn cael ei drafod gan y gweinyddwyr yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Hydref 2019. Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd nodi unrhyw faterion eraill maen nhw'n dymuno i Gronfa Bensiwn Dyfed eu cynnwys yn eu cyflwyniad, gwybodaeth i'w rhoi'n uniongyrchol i PSC MacArthur.

6.4 **PENDERFYNWYD:**

**(vii) nodi'r adroddiad;**

**(viii) cymryd camau i hyrwyddo'r defnydd o'r cyfleuster Fy Mhensiynau Ar-lein**

**(ix) nodi unrhyw agweddau sicrhau pensiwn y gall y gweinyddwyr eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.**

7 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR LAFAR

7.1 Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf Bwrdd Cynghori'r Cynllun (BCC) ar 3 Ebrill 2019, a thrafodwyd hyn yng nghyfarfod y Bwrdd Pensiynau Lleol ar 2 Mai 2019. Nodwyd yn hanesyddol, y cynhaliwyd cyfarfodydd BCC yng Nghaerdydd, ond bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol gydag opsiwn cynadledda fideo.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 SEMINAR LLYWODRAETHU 15/05/19 A DPA – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR LAFAR

8.1 Mae llawer o'r eitemau a gyflwynwyd ac a drafodwyd yn ystod y seminar wedi cael eu codi yn ystod y cyfarfod; canolbwyntiwyd felly, ar eitemau ychwanegol a godwyd.

8.2 Roedd diweddariadau cyfraith achosion yn cynnwys meysydd allweddol i'w nodi, yn arbennig pwysigrwydd rhagolygon pensiwn cywir, sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o weithdrefnau datrys anghydfod mewnol (IDRP) y Gwasanaeth, a phwysigrwydd cyflawni dyddiadau cau DBBau.

8.3 Atgoffwyd Aelodau'r Bwrdd bod yr arolwg Rheoleiddio Pensiynau ar fin cael ei gyhoeddi.

8.4 Argymhellwyd y canlynol ar gyfer y BPLl (arfer da):

- BPLl i adolygu'r gofrestr risgiau yn ystod pob cyfarfod o'r Bwrdd;
- Ystyried Seiberdroseddu o fewn y Gofrestr, a phrofi'r cynlluniau adfer ar ôl trychineb;
- Gwerthuso gwybodaeth a sgiliau aelodau yn flynyddol, a sicrhau bod y gwerthusiad yn cael ei gofnodi'n ysgrifenedig;

8.5 Trafodwyd yr anawsterau yn ymwneud â DPAion ar gyfer gweinyddwyr; oherwydd fformat y meddalwedd, byddai cael ystadegau ar dargedau'n feichus i'r gweinyddwyr, gan y byddai'n golygu trin a thrafod nifer o adroddiadau; nid yw meddalwedd yr ATA yn caniatáu ar gyfer adrodd ar ddata DPAion.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 Y GOFRESTR RISGIAU

9.1 Trafododd y Bwrdd fanteision adolygu'r gofrestr risgiau yn rheolaidd, a chytunodd bod adolygiad blynyddol yn annigonol. Mae'r gofrestr risgiau wedi 'i rhannu'n bedwar maes allweddol, a phenderfynodd y Bwrdd y byddai canolbwyntio ar un maes allweddol ym mhob cyfarfod yn gwella cydymffurfiaeth â chod ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau.

9.2 Cymeradwywyd cofnodion newydd yn ymwneud â seiberdroseddu, McCloud v Sargeant a dyfarniadau llys Booth/Bradshaw, ond diwygiodd y Bwrdd gyfradd y sgôr gychwynnol.

9.3 Nodwyd bod risg o ran cyllid yn berthnasol i 20/21; mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu costau pensiwn cyflogwyr yn rhannol ar gyfer 2019/20. Diben y cyllid yw talu'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr cynllun pensiwn y diffoddwyr tân o ganlyniad i Brisiad Actiwaraidd Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) ar 31 Mawrth 2016. Nid oes sicrwydd y bydd yr arian yn parhau ar ôl 2019/20.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

**(x) diweddaru'r gofrestr risgiau bresennol;**

**(xi) canolbwyntio ar feysydd risg allweddol penodol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.**

10 EXIT CAP CONSUTATION YMGYNGHORIAD AR Y CAP YMADAEL?

10.1 Cyflwynodd PSC MacArthur y papur a oedd wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Tân llawn ym mis Mehefin. Roedd y papur yn trafod yr holl gynlluniau pensiwn a gynigir gan yr Awdurdod Tân. Tynnodd PSC MacArthur sylw at yr agweddau sy'n ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân ac, yn benodol, tynnwyd sylw'r Bwrdd at yr eithriadau sy'n berthnasol i bensiynau diffoddwyr tân.

10.2 Cytunwyd mai bach iawn fyddai'r effaith ar aelodau cynllun pensiwn y diffoddwyr tân oherwydd yr eithriadau.

10.3 Tynnodd y Bwrdd sylw at y gofyniad i fynd i'r afael â'r mater o fynegrifo'r terfyn o 95k ar gyfer y cap ymadael (ar hyn o bryd, does dim awgrym o fynegrifo'r ffigur).

10.4 Mynegodd y dirprwy glerc bryderon ynghylch gallu'r Awdurdod tân i leihau taliadau ymadael i aelodau'r diffoddwyr tân heb newid rheoliadau'r cynllun; bydd yr agwedd hon yn cael ei chynnwys yn y ffurflen ymgynghori sydd i'w chyflwyno ar 3 Gorffennaf 2019.

10.5 **PENDERFYNWYD:**

**(xii) Y dylai PSC MacArthur gynnwys y materion a godwyd yn sgil ymateb yr Awdurdod Tân i'r ymgynghoriad.**

11 YMDDEOLIADAU AR SAIL SALWCH (HYFFORDDIANT)

11.1 Derbyniodd Aelodau'r Bwrdd hyfforddiant ar y broses ymddeol ar sail afiechyd a dyfarniadau ar sail anaf. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys yr agweddau canlynol:

- Dyfarniadau haen is ac uwch;
- Adolygiadau ar sail afiechyd
- Dyfarniadau ar sail anaf;
- Camau cyn ymddeol ar sail afiechyd;
- Proses ymddeol ar sail afiechyd;
- Cyfeiriadau at yr Ymarferydd Meddygol Cymwysedig Annibynnol; ac
- Yr hawl i apelio.

**11.2 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

12 MATERION AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB LLAWN

12.1 Cofrestr risgiau y Bwrdd Pensiynau Lleol i gael ei gynnwys yn yr adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio.

13 UNRHYW FATER ARALL

13.1 Ar gyfer cyfarfod mis Hydref, gofynnodd Aelodau am hyfforddiant yn y meysydd canlynol:

- Deall cyflog pensiynadwy
- Rolau a Chyfrifoldebau gweinyddwyr Cronfa Bensiwn Dyfed.

13.2 **PENDERFYNWYD:**

**(xiii) cytuno â'r gofynion hyfforddi a lle bo'n berthnasol, trefnu darparwr hyfforddiant priodol.**